Cam 3 - Cystadleuaeth am Ansawdd

Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Teledu Gwasanaeth Cyhoeddus



Crynodeb: Cyhoeddwyd 8 Chwefror 2005

Ofcom
OFFICE OF COMMUNICATIONS
Y SWYDDFA GYFATHREBIADAU

Crynodeb gweithredol

Cyd-destun

1.1 Mae'n ofynnol i Ofcom yn unol â'r Ddeddf Gyfathrebiadau gynnal adolygiad o ddarlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Roedd gan hwn, y cyntaf o'r adolygiadau hyn, ddau gwestiwn allweddol wrth ei wraidd:

- Pa mor effeithiol, gyda'i gilydd, yw'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dynodedig (BBC, Channel 3, Channel 4, Five, S4C a Teletext – y cyfeirir atynt ar y cyd fel y "PSBs") yn bodloni'r dibenion a osodwyd ar eu cyfer yn y Ddeddf Gyfathrebiadau?
- Sut y gellir cynnal a chryfhau ansawdd PSB yn y dyfodol?

1.2 Cynhaliwyd yr adolygiad mewn tri cham:

Yng Ngham 1, cynhaliwyd rhaglen fanwl o ymchwil a dadansoddiad gennym i asesu perfformiad y PSBs dynodedig. Casglwyd eu bod, gyda'i gilydd, yn perfformio'n dda wrth gyflwyno newyddion diduedd ac annibynnol, a rhaglenni o'r DG o ansawdd uchel, ar draws ystod o genres. Er hynny, nodwyd gennym fod y system yn cynnwys gormod o raglenni a fformatau deilliadol ac wedi'u copïo, a bod y cyhoedd eisiau gweld mwy o wreiddioldeb ac arloesedd ar draws eu hoff sianeli. Ymddangosai fod cynnwys mwy uchelgeisiol yn cael ei wthio'n gynyddol i ymylon yr amserlenni. Nodwyd rhesymeg hefyd gennym ar gyfer parhau i ddarparu PSB yn y byd digidol, a chynigiwyd diffiniad newydd o PSB, yn canolbwyntio ar gyfres o ddibenion a nodweddion, yn hytrach nag ar genres neu sefydliadau.

Yng Ngham 2, edrychom i'r dyfodol a, chan ddefnyddio gwaith modelu manwl, sefydlwyd na fydd yr hen fodel PSB yn gynaliadwy wrth i ni agosáu at ddiffodd analog, a thu hwnt. Bydd yna golled arian o'r system y byddai angen, yn ôl ein hymchwil, ei ddisodli gan PSB effeithiol cadarn yn y byd newydd hwn. Byddai mathau penodol o raglenni, gan gynnwys rhaglenni materion cyfoes a ffeithiol uchelgeisiol, rhaglenni ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau, drama o radd uchel a chomedi cyfoes, mewn perygl. Dangoswyd hefyd gennym fod yna gefnogaeth gyhoeddus helaeth ar gyfer cynnal lefel gyfredol ariannu PSB ac ystod darpariaeth PSB, ar draws sawl darparwr.

Yn yr adroddiad terfynol hwn – Cam 3 – rydym yn tynnu ein gwaith cynharach a'r ymatebion i'n dau adroddiad blaenorol, at ei gilydd i nodi ein fframwaith arfaethedig i'r dyfodol yn fanylach, a'r camau y mae eu hangen nawr a dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn ei osod. Mae angen i ni baratoi nawr ar gyfer y byd hollol ddigidol, gan fydd angen amser i ddylunio a gweithredu llawer o'r sylfeini, a bydd y broses o newid i'r digidol yn dechrau dros y rhai blynyddoedd nesaf. Mae'r adolygiad hwn, ochr yn ochr ag Adolygiad y Llywodraeth o Siartr y BBC, yn rhoi cyfle unigryw i nodi a chymryd y camau angenrheidiol i gynnal a chryfhau ansawdd darlledu gwasanaeth cyhoeddus am rai blynyddoedd i ddod.

Diwedd yr hen fodel

1.3 Am fwy na 50 mlynedd, mae'r system PSB yn y DG wedi darparu ystod eang o raglenni ansawdd uchel i ddinasyddion a defnyddwyr. Mae'n hymchwil yn dangos bod y cyhoedd cyffredinol, gan mwyaf, yn dal i werthfawrogi amrywiaeth y cynnwys a ddarperir yn fawr, yn ogystal â'r ffaith ei fod ar gael yn eang, yn rhad ac am ddim i'w ddarlledu, ac o ystod o ddarparwyr. Ymddangosir bod y gymysgedd o sefydliadau, ariannu a rheoleiddio wedi gweithio'n dda.

1.4 Ond mae'r model sefydledig hwn eisoes yn torri. Effeithir yn gynyddol ar PSBs masnachol gan gystadleuaeth ar gyfer refeniw hysbysebu, sydd yn ei dro'n effeithio ar eu gallu i gynhyrchu rhai elfennau o allbwn PSB. Yn yr un modd, mae gwerth prinder eu sbectrwm analog – a ddyrannwyd iddynt am fodloni rhwymedigaethau PSB costus – yn dirywio. Rhyw bryd, ni fydd gwerth cadw eu trwyddedau presennol, o ystyried y dewisiadau darlledu eraill sydd ar gael iddynt. Ar ôl newid i'r digidol, ni fyddwn bellach yn gallu sicrhau y bydd PSBs masnachol yn cyflwyno'r ystod eang o rwymedigaethau – fel rhaglenni rhanbarthol – a sicrhawyd gennym yn y gorffennol.

1.5 Mae Channel 4, er ei fod yn wynebu gwahanol gymhellion fel darlledwr nid-er-elw, yn wynebu pwysau cystadleuol tebyg i'r rheiny sy'n effeithio ar ITV1 a Five – bydd ei allu i gyflwyno ystod eang o gynnwys PSB yn dod dan bwysau hefyd. Gall y BBC hyd yn oed, er bod ganddo

fynediad i arian cyhoeddus, deimlo bod talwyr ffioedd trwydded yn dechrau cwestiynu lefel yr ariannu y maent yn barod i'w chefnogi, pan fod ganddynt fwy o ddewis yn y farchnad, a phan maent eisoes yn talu'n wirfoddol am lawer o wasanaethau darlledu masnachol.

1.6 Casglwyd gennym y byddai angen gosod model newydd i roi sylw i'r heriau a nodwyd ac i sicrhau PSB ar gyfer y dyfodol. Byddai angen arian cyhoeddus penodol ar y model newydd hwn, a darparwyr newydd ochr yn ochr â'r prif rwydweithiau presennol. Casglwyd hefyd y gallai technolegau a gwasanaethau newydd gyflwyno ffordd o gynyddu effeithiolrwydd cyflwyno PSB yn y dyfodol. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'n hymgynghoriad Cam 2 yn cytuno â'r diagnosis hwn o'r her. Rydym nawr yn gosod ein hymagwedd newydd arfaethedig.

Fframwaith ar gyfer y dyfodol

1.7 Credwn fod gan gynnwys teledu a chlyweled yn y DG ddyfodol disglair. Fel dinasyddion a defnyddwyr, bydd gennym fynediad i ystod llawer ehangach o gynnwys a gwasanaethau nag erioed o'r blaen, wedi'u darparu mewn ffyrdd mwy cyfleus a thros systemau dosbarthu newydd. Mae'r galluoedd a gynigir gan fand eang yn rhoi'r cyfle i drawsnewid a gwella'r profiad gwylio, tra bod recordwyr fideo personol a datblygiadau mewn canllawiau rhaglenni electronig yn rhoi llawer mwy o reolaeth i wylwyr dros y cynnwys teledu sydd ar gael iddynt ac y dewisant ei wylio. Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, mae gennym gyfle unigryw i addasu a chryfhau'r ddarpariaeth o'r hyn a elwir bellach yn darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel bod ystod ac ansawdd y cynnwys a ddarperir yn cadw i fyny â'r datblygiadau disgwyliedig mewn technoleg ac anghenion y cyhoedd. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn nodi sut y credwn y gellir sicrhau'r dyfodol hwn.

Marchnad fwy cystadleuol

1.8 Ein man cychwyn yw hyrwyddo mwy o ddewis a chystadleuaeth. Yng Ngham 1 ein hadolygiad, fe esboniwyd gennym, wrth i ni agosáu at newid i'r digidol, bydd marchnad deledu'r DG yn gweithio'n gynyddol effeithiol i gyflwyno'r hyn y mae defnyddwyr ei

eisiau ac yn gallu talu amdano. Bydd arwyddocâd methiannau marchnad hirsefydlog, yn gysylltiedig â diffyg sbectrwm, diffyg mecanweithiau talu uniongyrchol, a diffyg gwybodaeth defnyddwyr, yn lleihau yn raddol.

1.9 Rhown flaenoriaeth uchel ar gefnogi'r datblygiadau cyffredinol hyn:

Byddwn yn parhau â'n rhaglen waith i gefnogi cwblhau'r broses newid i'r digidol yn llwyddiannus, ac i gyflwyno gwasanaethau band eang lled band uchel.

Fel a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol 2005/6, bydd Ofcom yn cyflwyno menter newydd i adolygu'r holl agweddau ar gystadleuaeth mewn marchnadoedd darlledu, gan gynnwys adolygiad o'r sector cynhyrchu cynnwys.

Diffiniad newydd o PSB

1.10 Fodd bynnag, mae yna rai agweddau ar deledu na fyddai marchnad sy'n gweithio'n well hyd yn oed yn eu darparu, neu y byddai'n eu tanddarparu; y mae'r gymdeithas gyfan yn eu gwerthfawrogi'n fawr iawn, ac a ddylai fod ar gael i bawb. O ystyried pŵer teledu a'i allu i gyrraedd a dylanwadu ar niferoedd mawr o bobl, gellir cyfiawnhau ymyrraeth gyhoeddus i sicrhau cynnwys o'r fath o hyd, hyd yn oed mewn byd hollol ddigidol.

1.11 Rydym wedi nodi diffiniad newydd o PSB, a ddisgrifir o ran dibenion a nodweddion, a gynlluniwyd i barhau'n berthnasol dros amser, hyd yn oed wrth i dechnolegau a chyfryngau newydd ymddangos i ychwanegu at sianeli darlledu mwy confensiynol, neu i'w disodli yn y pen draw.

1.12 Roedd nifer fach o ymatebwyr i'n hymgynghoriad yn pryderu bod y dibenion a nodweddion PSB yr ydym wedi'u nodi yn rhy fras o hyd. Ond credwn fod manteision diffiniad eithaf bras yn gorbwyso'r anfanteision posibl, a nodwn, yn yr adroddiad hwn, ein cynigion ar gyfer sut y gellid cynnal yr asesiad.

Dibenion PSB

- Hysbysu ein hunain ac eraill a chynyddu ein dealltwriaeth o'r byd trwy newyddion, gwybodaeth a dadansoddiad o ddigwyddiadau a syniadau cyfredol.
- Ysgogi ein diddordeb yn y celfyddydau, gwyddoniaeth, hanes a phynciau eraill, a'n gwybodaeth amdanynt, trwy gynnwys sy'n hygyrch ac sy'n gallu annog dysgu anffurfiol.
- Adlewyrchu a chryfhau ein hunaniaeth ddiwylliannol trwy raglenni gwreiddiol ar lefel DG, cenedlaethol a rhanbarthol, gan ddod â chynulleidfaoedd ynghyd o bryd i'w gilydd i rannu profiadau.
- Ein gwneud yn ymwybodol o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau amgen, trwy raglenni sy'n adlewyrchu bywydau pobl eraill a chymunedau eraill, yn y DG a thu hwnt.

Nodweddion PSB

- Ansawdd uchel – wedi'i ariannu'n dda a'i gynhyrchu'n dda.
- Gwreiddiol – cynnwys DG newydd, yn hytrach nag ailadrodd neu gaffaeliadau.
- Arloesol – cyflwyno syniadau newydd neu ailddyfeisio ymagweddau cyffrous, yn hytrach na chopïo hen rai.
- Heriol – peri i wylwyr feddwl.
- Diddorol – gan barhau'n hygyrch ac at ddant gwylwyr.
- Ar gael yn eang – os ariennir cynnwys yn gyhoeddus, mae angen i fwyafrif mawr o ddinasyddion gael y cyfle i'w wylio.

Graddfa ymyrraeth gyhoeddus a ffynonellau nawdd

1.13 Mae'n hymchwil yn nodi bod y cyhoedd yn parhau i gefnogi lefel ac amrywiaeth presennol darpariaeth PSB. Mae hyn yn galluogi cynulleidfaoedd i elwa ar y manteision a ddaw yn sgil hyn – sef lefelau uchel o gynhyrchu DG gwreiddiol yn yr oriau gwylio brig a lefelau gwylio uchel ar gyfer genres PSB. Mae yna gefnogaeth gyhoeddus, hefyd, dros gadw lefel gyfredol y nawdd yn y system PSB. Golyga hyn, wrth i'r nawdd ymhlyg sy'n gysylltiedig â model heddiw ddiflannu, bydd angen dod o hyd i ffynonellau newydd o nawdd i ddisodli'r diffyg.

1.14 Cynigiwn felly y dylid cynnal lefelau cyfredol arian cyhoeddus ar gyfer PSB, gymaint â phosibl, am y cyfnod hyd at newid i'r digidol. Y tu hwnt i hynny, gall darpariaeth gynyddol gan y farchnad alluogi gostyngiad graddol mewn cymorth cyhoeddus, a dylid adolygu hyn yn gyfnodol.

1.15 Yng Ngham 2, nodwyd opsiynau gennym ar gyfer ffynonellau nawdd penodol PSB yn y dyfodol, ynghyd â'u cryfderau a'u gwendidau. Roedd llawer o ymatebwyr i'n hymgynghoriad yn ffafrio defnyddio'r model ffi trwydded, er y cafwyd cefnogaeth gan wahanol ymatebwyr dros yr holl opsiynau a gynigiwyd gennym, gan gynnwys grant uniongyrchol, ardoll diwydiant, a chwmpas ar gyfer gwireddu gwerth sbectrwm posibl.

1.16 Mater i'r Llywodraeth yw penderfynu ynghylch y ffynhonnell orau o arian ar gyfer cynnal PSB. Cynigiwn felly:

- y dylai'r Llywodraeth archwilio'n ofalus yr achos ar gyfer arian uniongyrchol ychwanegol ar gyfer PSB i ddisodli'r gostyngiad mewn arian ymhlyg. Dylai hyn gynnwys ystyried cymorth a ariennir gan dreth;
- dylai'r Llywodraeth archwilio'n fanylach y cwmpas ar gyfer ffi trwydded ehangach, ac ar gyfer defnyddio'r model ffi trwydded i gefnogi ariannu PSB yn uniongyrchol ar draws ystod o gyflenwyr rywbryd yn y dyfodol; a
- dylai adolygiadau Ofcom o PSB yn y dyfodol archwilio lefel ariannu cyhoeddus teledu, yn ogystal â'i effeithiolrwydd a'i werth am arian.

Y system PSB newydd

1.17 Cynigiwn fodel newydd, sy'n sicrhau darpariaeth barhaus o PSB gan ystod o ddarparwyr, gyda gwahanol gylchoedd gwaith, mynediad i wahanol ffynonellau cyllid, a chyda gwahanol ymagweddau sefydliadol. Mae gan bob elfen o'r system newydd rôl hanfodol i'w chwarae wrth sicrhau y cynhelir ansawdd, amrediad a dewis cyffredinol:

- Dylai'r BBC, a ariennir gan y model ffi trwydded, barhau yn faen congl PSB, gyda chyfrifoldeb arbennig i fuddsoddi mewn cynnwys nodweddiadol sy'n ymdrechu bob amser i fodloni dibenion a nodweddion gwasanaeth cyhoeddus.
- Dylai ITV1 ganolbwyntio ar ei gryfderau, sef newyddion a chychwyn cynhyrchu gwerth uchel o ledled y DG. Credwn ei bod yn well i ITV1 baratoi ar gyfer ei rôl yn y dyfodol cyn gynted â phosibl, yn hytrach na gofyn iddo gynnal ystod lawn o ymrwymiadau a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer byd analog gwahanol iawn.
- Dylai Channel 4 parhau'n ddarlledwr dim-er-elw, wedi'i ariannu'n fasnachol, gyda chylch gorchwyl penodol ar gyfer arloesedd.
- Dylai Five gael ei arwain gan y farchnad yn bennaf, gyda'i rwymedigaethau PSB yn canolbwyntio ar gynhyrchu gwreiddiol yn y DG.
- Dylai fod Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus (PSP) newydd, wedi'i ariannu'n gyhoeddus, i ddefnyddio cyfryngau newydd i gyflwyno cynnwys nodweddiadol ac ansawdd uchel i ddinasyddion a defnyddwyr.
- Dylid annog sianeli digidol masnachol eraill i ddatblygu ymhellach eu buddsoddiad mewn cynnwys ansawdd uchel y DG, a'u darllediad ohono – gallant hefyd gyfrannu'n gynyddol at y gymysgedd PSB gyffredinol. Gellid rhoi rhyw fath o statws PSB i sianeli o'r fath. Byddwn yn gweithio dros y misoedd nesaf i asesu'r meini prawf ar gyfer dyfarnu statws o'r fath, a'r elfennau ymarferol sydd ynghlwm wrth hyn, ac yn ystyried y manteision a allai ddod yn ei sgil.

1.18 Mae cynhyrchu cynnwys hefyd yn ffynhonnell bwysig o luosogrwydd. Gall sector cynhyrchu cryf, gydag ystod ac amrywiaeth o gyflenwyr, fod yn ffynhonnell o gystadleuaeth greadigol yn ogystal â thwf

economaidd. Yng Ngham 2, cynigiom adolygiad pellach o'r sector cynhyrchu ar gyfer mis Medi 2005, y gellid rhoi amser i'r codau ymarfer newydd weithio erbyn hyn, a byddai'r BBC wedi nodi cynigion newydd ar gyfer ei ddefnydd o gynhyrchwyr mewnol ac annibynnol.

1.19 Mae'r BBC bellach wedi cyhoeddi ei gynigion newydd, yr ydym wedi'u gweld ar ffurf amlinelliad. Croesawn y cyfeiriad cyffredinol a nodwyd gan y BBC. Fodd bynnag, deallwn fod cynhyrchwyr annibynnol wedi codi rhai pryderon am sut y bydd yr ymagwedd arfaethedig yn gweithio'n ymarferol. Yn fwy cyffredinol, awgrymodd ymatebwyr i'n hymgynghoriad y dylai'n hadolygiad o faterion cynhyrchu ddechrau'n gynharach nag y bwriadwyd yn wreiddiol. Cynigiwn felly ddechrau'r gwaith paratoi ar gyfer ein hadolygiad diwedd blwyddyn arfaethedig ar unwaith, a byddwn yn defnyddio'r cyfle hwn i gynnal adolygiad ehangach o sector cynhyrchu cynnwys y DG nag a fwriadwyd yn wreiddiol.

Y BBC

1.20 Mae'n amlwg bod y BBC wrth wraidd PSB yn yr oes ddigidol, fel y bu yn y gorffennol. Ond mynegwyd pryderon eto yn ein hymgynghoriad Cam 2 am arwahanrwydd cylch gorchwyl y BBC wrth symud ymlaen, am gadernid y ffi trwydded fel prif ffynhonnell incwm y BBC, ac am yr effaith wael bosibl ar rai o weithgareddau'r BBC ar y farchnad ehangach.

1.21 Rydym felly'n ailadrodd ein cynigion:

- y dylai'r BBC ymdrechu i sicrhau bod ei holl raglenni, nid yn unig ei wasanaethau, yn adlewyrchu dibenion a nodweddion PSB i ryw raddau;
- dylai'r BBC gael ei ariannu'n gywir, gan ddefnyddio'r model ffi trwydded deledu ar gyfer hyd y Siartr nesaf – ond y dylai fod adolygiad canol tymor o berfformiad a nawdd y BBC, a dylid gofyn hefyd i'r BBC ystyried yr achos am refeniw tanysgrifio fel modd o ariannu unrhyw ehangiad yn y dyfodol; a

- dylai adolygiad y BBC o'i weithgareddau masnachol, a'r cynlluniau a ddaw ohonynt, fod yn destun archwiliad annibynnol manwl fel rhan o Adolygiad y Siartr ynghyd â lefel arfaethedig y ffi trwydded.

1.22 Croesawn y ffaith bod y BBC yn cytuno'n gyffredinol â llawer o'n cynigion cynt, a'r ymateb a wnaeth i roi sylw i lawer o'r pryderon ynghylch rhaglenni a nodwyd yn ein hymchwil Cam 1. Rydym hefyd yn cefnogi ei gynnig i gymhwyso prawf gwerth cyhoeddus newydd, y mae wedi ymroi i'w gymhwyso i wasanaethau presennol a newydd, fel y cynnig ar gyfer gwasanaethau teledu lleoledig iawn.

1.23 Cytunwn â'r ymatebwyr hynny a ddadleuodd y gall gwasanaethau newydd y BBC weithiau gael effaith wael ar ddatblygiad y sector cyfan, yn enwedig yn achos gwasanaethau newydd ac arbenigol. Rydym felly'n edrych ymlaen at rannu syniadau ac ymagweddau â'r BBC ar weithredu'r prawf gwerth cyhoeddus, ac ar fethodoleg gytûn ar gyfer asesiadau effaith.

Rôl Channel 4

1.24 Cytunir yn eang fod Channel 4 nid-er-elw, wedi'i ariannu'n fasnachol yn rhan bwysig o dirwedd PSB, ac y dylai barhau felly hyd at newid i'r digidol a thu hwnt. Yn y cyd-destun hwn, mae Ofcom yn croesawu ffocws adnewyddedig Channel 4 ar ei gylch gorchwyl PSB craidd. Yn y tymor hwy, bydd Channel 4 yn wynebu pwysau cystadleuol a allai leihau ei allu i gyflwyno ei gylch gorchwyl PSB yn llawn. Dangosodd ymatebion i'r ymgynghoriad wahaniaeth barn ynglŷn ag amseru tebygol unrhyw anawsterau o'r fath.

1.25 Rydym wedi cynnal dadansoddiad manwl o flaenamcanion ariannu Channel 4, ac wedi darganfod bod perfformiad y sianel graidd yn sensitif iawn i newidiadau bach mewn tybiaethau allweddol. Gallai perfformiad gwaeth na'r disgwyl o ran cyfanswm twf refeniw net hysbysebu (NAR) teledu a pheryglon dirywiol eraill achosi diffyg cyllid yn agos i £100m y flwyddyn erbyn 2009, os nad mwy. Fodd bynnag, gallai cymhwyso cyfres o dybiaethau yr un mor gredadwy waredu'r diffyg

cyllid yn gyfan gwbl. Yn ein barn ni, mae hyn yn dangos ei bod yn rhy gynnar i ystyried cymorth cyhoeddus parhaus, uniongyrchol i Channel 4.

1.26 Cynigiwn felly y dylai Channel 4, yn y tymor byr i ganolig, ddatblygu ei gynigion ymhellach ar gyfer hunangymorth, gan gynnwys arbedion cost, a chreu gwerth trwy fentrau a chynghreiriau masnachol newydd. Dylai'r Llywodraeth hefyd ystyried yr opsiynau ar gyfer ariannu'r costau eithriadol unigryw sy'n gysylltiedig â chyflwyniad digidol trosiannol Channel 4.

1.27 Yn yr un modd, bydd Ofcom yn ystyried yr achos ar gyfer cymorth rheoleiddio a gynigiwyd gan Channel 4. Mae Channel 4 wedi awgrymu opsiynau gan gynnwys:

- cyflwyno statws PSB ar draws ystod ehangach o weithgareddau Channel 4, gyda buddion posibl o ran safle Canllawiau Rhaglenni Electronig a chytundebau hawliau;
- gallu sbectrwm ychwanegol ar gyfer Channel 4; ac
- eithriad o brisio sbectrwm.

1.28 Mae'n bosibl o hyd, fodd bynnag, y bydd Channel 4 yn wynebu problemau ariannu tymor hwy. Cynigiwn felly fonitro ei berfformiad a'i gyllid, gydag adolygiad llawn pellach o'r sefyllfa yn 2006-7. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda Channel 4 ar yr opsiynau ar gyfer bodloni ei heriau strwythurol tymor hwy. Dyma'r prif opsiynau: ariannu cyhoeddus uniongyrchol, cymorth anuniongyrchol (er enghraifft, trwy fynediad i sbectrwm), a pherthynas â'r PSP arfaethedig.

1.29 Mae darparu nawdd cyhoeddus, p'un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn codi cwestiynau arwyddocaol. Er y gall mynediad i arian cyhoeddus amddiffyn allbwn PSB Channel 4 yn erbyn pwysau masnachol tymor hir, byddai hefyd yn golygu risgiau. Gallai newid diwylliant a gwerthoedd Channel 4 a gwneud Channel 4 yn llai annibynnol; byddai'n mynnu fframwaith rheoleiddio cymhleth; gallai fod yn anodd asesu a yw arian o'r fath yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol; ac mae'n codi pryderon ynghylch cymorth y wladwriaeth. Am y rhesymau hyn, credwn o hyd nad yw hwn yn ateb hawdd i'r heriau a wynebir gan Channel 4.

ITV a Five

1.30 Mae gan ITV1 a Five rôl bwysig i'w chwarae fel rhan o gymysgedd darlledu gyffredinol y DG, ond mae'n rôl sy'n datblygu. Ar gyfer y ddau rwydwaith, disgwyliwn i'w ffocws yn y dyfodol fod ar ddarparu cynhyrchu gwerth uchel, cynnwys gwreiddiol ar draws ystod o genres, a chystadleuaeth am ansawdd gyda'r BBC a Channel 4. Ein nod yw sicrhau – yn wahanol i lawer o wledydd eraill – bod bywydau pobl ledled y DG yn cael eu hadlewyrchu'n llawn ar ein teledu masnachol prif ffrwd. Disgwyliwn hefyd i ITV1 a Five ddarparu newyddion annibynnol a diduedd i sicrhau bod lluosogrwydd parhaus o gyflenwad newyddion a materion cyfoes ar gael ar y prif rwydweithiau.

1.31 Mae gan ITV1 gyfrifoldeb ychwanegol arbennig am ddarparu newyddion rhanbarthol, materion cyfoes a rhaglenni rhanbarthol eraill. Nodir ein cynigion ar gyfer y meysydd hyn isod. Ar gyfer ITV1 a Five, serch hynny, mae angen i ni ddatblygu ein disgwyliadau o ran darpariaeth PSB yn y dyfodol yng nghyd-destun marchnad sy'n gyflym newid – cynllunnir ein cynigion i helpu darlledwyr i ganolbwyntio ar yr agweddau hyn ar ddarpariaeth PSB a werthfawrogir yn fawr gan y cyhoedd, ac y mae'r ddau ohonynt mewn sefyllfa dda i gyflwyno'r rhain yn effeithiol yn yr amgylchedd newydd.

Adlewyrchu bywyd ledled y DG

1.32 Un o'r materion mwyaf heriol i'r dyfodol yw sicrhau darpariaeth effeithiol PSB yng Ngwledydd, rhanbarthau ac ardaloedd y DG. Ar gyfer y PSBs masnachol, mae gan y rhaglenni hyn gost uchel o ran darpariaeth ac maent yn y perygl mwyaf wrth i gystadleuaeth gynyddu. Dywed gwylwyr wrthym mai eu blaenoriaethau yw newyddion a materion cyfoes rhanbarthol, wedi'u cyflwyno gan fwy nag un darparwr, er yr hoffai llawer o wylwyr petai'r newyddion yn fwy perthnasol yn lleol nag yr hyn a ddarperir ar hyn o bryd. Mae gwylwyr hefyd yn hoff o weld eu gwlad neu ranbarth eu hunain yn cael eu hadlewyrchu ar deledu rhwydwaith. Mae amgylchiadau nodweddiadol y Gwledydd datganoledig yn golygu, er mwyn bodloni anghenion y cynulleidfaoedd yn y Gwledydd

hynny, bod angen mwy o raglenni, ac ystod fwy o raglenni, yn benodol ar gyfer pob gwlad nag sydd eu hangen yn Rhanbarthau Lloegr.

Fframwaith tymor hwy

1.33 Wrth i'r newid i'r digidol nesáu, mae yna gyfle unigryw i ailffurfio teledu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol mewn modd sy'n wirioneddol fodloni anghenion gwylwyr, ac yn cydnabod gwirioneddau economaidd y system PSB. Credwn mai dyma'r blaenoriaethau:

- rôl gynyddol bwysig i'r BBC mewn darparu newyddion ac ystod o raglenni eraill ar gyfer y Gwledydd, a Rhanbarthau Lloegr;
- rôl i ITV1 yn canolbwyntio ar newyddion rhanbarthol a chynhyrchu gwreiddiol o ansawdd uchel ar gyfer y prif rwydwaith o'r Gwledydd a'r Rhanbarthau;
- lefelau cynyddol o gynhyrchu y tu allan i Lundain, ar gyfer rhwydwaith ITV a'r BBC;
- gwasgaru cynhyrchu y tu allan i Lundain yn well, gan gynnwys i'r Gwledydd;
- sefydlu'r cwmpas ar gyfer ffurfiau newydd dychymygus o newyddion, gwybodaeth ac adloniant teledu lleol, wedi'u cyflwyno trwy deledu digidol a band eang;
- cyflwyno gwasanaethau iaith frodorol trwy wasanaethau penodedig; a,
- rôl bosibl i'r PSP wrth ddarparu cynnwys lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

1.34 Dyma'n cynigion penodol i gyflawni'r nodau hyn:

- dylid gofyn i'r BBC, fel rhan o'r Adolygiad Siartr, ddatblygu cynigion newydd ar gyfer rhaglenni lleol a rhanbarthol, sy'n mynd y tu hwnt i'r rheiny a nodwyd yn ei ddogfen *Building Public Value*, ac i helpu darparu mwy o raglenni teledu a ariennir yn dda ar gyfer Rhanbarthau Lloegr i ategu ei gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y Gwledydd;
- bydd angen i drwyddedigion Channel 3 ddarparu newyddion a materion cyfoes rhanbarthol;

- byddwn yn cynyddu cwotâu ITV1 ar gyfer cynhyrchu y tu allan i Lundain i'r rhwydwaith i 50% (yn ôl gwerth a maint), gan gynrychioli mwy na £40m o wariant ychwanegol y flwyddyn y tu allan i Lundain yn 2006 a thu hwnt;
- byddwn yn gweithio gydag ITV plc i sicrhau gwelliannau yn yr ystod o ganolfannau cynhyrchu ledled y DG a gynrychiolir ar rwydwaith ITV1, gan gynnwys cyflwyno cronfa partneriaeth gynhyrchu newydd, i helpu adeiladu gallu y tu allan i Lundain;
- byddwn yn ymgynghori â'r BBC ar gynyddu ei gynhyrchu y tu allan i Lundain ar gyfer y rhwydweithiau, fel rhan o'r ymateb i Adolygiad y Siartr. Rydym yn cydnabod bod y BBC eisoes wedi cymryd camau gwerthfawr yn y cyfeiriad hwn a chredwn ei bod yn rhesymol disgwyl y dylai fod yn gallu cyflawni safle tebyg i ITV1 ymhen rhai blynyddoedd;
- byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth a phartïon eraill i archwilio'r opsiynau ar gyfer teledu lleol digidol, gan gynnwys dadansoddiad pellach i asesu argaeledd sbectrwm, rhagolygon economaidd a gofynion y gynulleidfa am wasanaethau felly;
- rydym wedi nodi ystod o opsiynau ar gyfer darparu gwell gwasanaethau iaith frodorol;
- yng Nghymru, gwell tryloywder yn y berthynas rhwng y BBC a S4C ac ymrwymiadau cliriach gan y BBC, gan ystyried yn y tymor hwy y defnydd o'r model PSP ar gyfer darparu gwasanaethau iaith Gymraeg;
- yn yr Alban, y gobaith am wasanaeth penodedig i siaradwyr Gaeleg, wedi'i gyflwyno i ddechrau gan loeren ddigidol, gan ddarparu mwy o gynnwys, ac ystod fwy cyfoethog, na'r hyn a ddarperir ar sianeli prif ffrwd ar hyn o bryd; ac
- yng Ngogledd Iwerddon, gweithredu'r cynigion yng Nghytundeb Dydd Gwener y Groglith/Belfast yn llawn.

Rheoli'r trawsnewid

1.35 Ar y llwybr i ddiffodd analog yn gyfan gwbl, mae angen i ni reoli'r trawsnewid mor belled ag y mae rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion ar ITV1 dan sylw. Cynigiwn ymagwedd dau-gam, gyda newid cychwynnol yn digwydd ar unwaith, ac addasiad pellach ar ddechrau'r drefn diffodd analog yn rhanbarthol (a ddisgwylir yn 2008 ar hyn o bryd). Er ein bod wedi cysylltu'r newid nesaf ag amseru diffodd analog, mae'n bwysig nodi bod yr angen am newid yn deillio o ddirywiad diarbed y model analog hanesyddol. Mae hyn yn sgil defnydd cynyddol o deledu digidol, yn hytrach na'r newid i ddigidol ei hun. Bwriad ein hymagwedd yw hyrwyddo ymagwedd gynaliadwy i raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Bydd newyddion a materion cyfoes rhanbarthol yn parhau'n rhwymedigaethau i drwyddedigion Channel 3. Mae'r cynigion ar gyfer y Gwledydd yn wahanol i'r rheiny ar gyfer Rhanbarthau Lloegr, gan adlewyrchu'r amgylchiadau gwahanol y cyfeiriwyd atynt uchod.

Rhaglenni ITV1 nad ydynt yn rhaglenni newyddion ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

1.36 Bydd rhwymedigaethau rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion yn y Gwledydd yn cael eu cynnal ar lefel uwch nag yn Rhanbarthau Lloegr. Yn benodol, cynigiwn osod gofynion gofynnol ar gyfer yr holl drwyddedigion yn y Gwledydd i ddarlledu o leiaf pedair awr yr wythnos o raglenni rhanbarthol nad ydynt yn rhaglenni newyddion, nes bod rhanbarth cyntaf y DG yn newid i'r digidol. Gall drwyddedigion fynd ymhell y tu hwnt i'r gofynion gofynnol hyn, fel y gwnaethant yn y gorffennol. Byddai rhannau o gynnwys nad yw'n newyddion trwyddedigion yr Alban, ond nid y cyfan, yn cael ei rannu rhyngddynt, gan fodloni diddordeb cynulleidfa'r Alban mewn gwasanaeth yr Alban gyfan am y tro cyntaf ar ITV1.

1.37 Pan fydd y rhanbarth cyntaf yn y DG yn newid i'r digidol, cynigiwn leihau'r gofyniad gofynnol ar gyfer y trwyddedigion yn y Gwledydd am raglenni nad ydynt yn rai newyddion i dair awr yr wythnos. Bydd yr holl ostyngiadau y tu allan i'r oriau brig.

1.38 Yn ogystal, bwriadwn adolygu Trefniadau Rhwydweithio ITV i sicrhau nad yw'r trwyddedigion cenedlaethol yn talu am raglenni rhwydwaith nad ydynt yn eu darlledu (yn ystod eu cyfnodau eithrio), a mynnu bod Canolfan Rhwydwaith ITV yn ystyried y lefel uwch o eithrio yn y tair Gwlad wrth lunio ei hamserlen rwydwaith.

1.39 Cyflwynir y cynigion hyn ar gyfer y Gwledydd yn yr adroddiad hwn ar gyfer ymgynghoriad cyn i ni gyrraedd ein penderfyniadau terfynol, a gyhoeddir yn hwyrach yn 2005.

Rhaglenni ITV1 nad ydynt yn rhaglenni newyddion ar gyfer Rhanbarthau Lloegr

1.40 Ar gyfer Rhanbarthau Lloegr, yn ein hadroddiad Cam 2, cynigiwyd lleihau rhwymedigaeth rhaglenni rhanbarthol ITV1 nad ydynt yn rhaglenni newyddion o dair awr yr wythnos i 1.5 awr yn 2005, gyda'r holl ostyngiadau'n digwydd y tu allan i'r oriau brig.

1.41 Er ein bod wedi clywed llawer o gynrychiolaethau o'r rheiny sy'n gwrthwynebu gwneud y newid hwn nawr, ar ôl ystyried yn ofalus nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw reswm cymhellgar i newid ein safbwynt. Mae'r rhaglenni dan sylw o flaenoriaeth is i wylwyr nag agweddau eraill ar PSB, ac mae felly'n anodd cynnal dadl am fuddsoddiad cynyddol gan ITV. Bydd y rhaglenni hyn yn anghynaliadwy wrth i'r newid i'r digidol agosáu.

1.42 Credwn ei bod yn well symud i ymagwedd fwy realistig a chynaliadwy nawr, a gofyn i ITV1 gomisiynu lefelau cynyddol o gynhyrchu rhwydwaith gwerth uchel o'r rhanbarthau, yn hytrach na chadw rhaglenni rhanbarthol cyllideb isel nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi cystal gan gynulleidfaoedd.

1.43 Byddwn, felly, yn gweithredu ein cynigion ar gyfer rhaglenni rhanbarthol nad ydynt yn rhaglenni newyddion yn Rhanbarthau Lloegr cyn gynted â phosibl. Bydd y lefel newydd o 1.5 awr yr wythnos o raglenni rhanbarthol nad ydynt yn rhaglenni newyddion, gan gynnwys o leiaf 45 munud mewn amser brig a 0.5 awr bellach yn agos at yr amser brig, yn parhau nes i ranbarth cyntaf y DG newid i'r digidol. Pan fydd rhanbarth cyntaf y DG yn newid i'r digidol, cynigiwn leihau'r gofyniad

am raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion i 0.5 awr yr wythnos. Bydd darllediadau Seneddol a materion cyfoes yn rhan o'r rhwymedigaeth barhaus hon.

1.44 Mae ymrwymiad sylweddol o raglenni rhanbarthol nad ydynt yn rhaglenni newyddion yn eistedd wrth ochr y mentrau a nodwyd uchod: y cwotâu newydd arfaethedig y tu allan i Lundain ar gyfer ITV1 a'r BBC a gwasgaru cynhyrchu yn ehangach. Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn cynrychioli llif ychwanegol o gronfeydd cynhyrchu ITV1 y tu allan i Lundain o tua £17 miliwn yn 2005 a £40 miliwn yn 2006 a bydd yn cyflwyno buddiannau uniongyrchol i gynhyrchwyr yng Ngwledydd a Rhanbarthau'r DG.

Y Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus

1.45 Mae'r defnydd o gynnwys clyweled yn newid wrth i dechnolegau dosbarthu newid gael eu defnyddio'n ehangach, ac wrth i fathau newydd o gynnwys gael eu datblygu. Bydd sianeli llinellol confensiynol yn llai effeithiol wrth gyrraedd rhai gwylwyr yn y dyfodol nag y buont yn y gorffennol, a gall cyfryngau newydd wella effeithiolrwydd a gwerth llawer o fathau o gynnwys – o newyddion, cerddoriaeth a chwaraeon ar alw, i addysg a deunydd dysgu rhyngweithiol.

1.46 Credwn ei bod yn bwysig i'r system PSB ragweld ac ymateb i'r newidiadau hyn, ac rydym wedi cynnig creu Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus newydd, gyda'r cyfrifoldeb penodol o ddatblygu gwasanaethau a chynnwys sy'n cymryd mantais lawn ar dechnolegau dosbarthu newydd.

1.47 Gallai PSP ddod â ffrwydriad o ynni arloesol i'r dirwedd. Mae dechreuwyr newydd wedi tueddu cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar ddarlledu a PSB y DG. Credwn y gallai PSP gael yr un fath o effaith. Gwir fantais greadigol PSP yw, o'i gychwyn cyntaf, y gallai ganolbwyntio ar gynnwys am fyd band eang. Gellid dosbarthu ei gynnwys ar ystod o wahanol lwyfannau digidol ac ar-alw – yn ogystal â theledu digidol. Ar hyn o bryd, dim ond y BBC sy'n darparu cynnig cynnwys band eang mor eang, amrywiol a chyfoethog wedi'i gynllunio'n benodol i'r DG. Gallai'r PSP ddarparu cystadleuaeth ar gyfer

ansawdd mewn cynnwys rhyngweithiol band eang, fel y mae'r PSBs mwy confensiynol wedi'i wneud yn y sector teledu darlledu yn y gorffennol.

Cylch gorchwyl y PSP

1.48 Awgrymwyd sawl opsiwn ar gyfer cylch gorchwyl y PSP mewn ymateb i'n hymgynghoriad. Rydym wedi asesu pob un o'r opsiynau hyn yn erbyn ystod o feini prawf a chredwn y gallai'r ateb gorau fod yn gyfuniad o wahanol ymagweddau. Dyma'r ddwy wahanol elfen a gynigiwyd yn fwyaf cyffredin:

- Gwasanaeth cynnwys blaenaf, i'w wylio yn rhad ac am ddim, yn darparu cynnwys drama, comedi a ffeithiol arloesol, llawn dychymyg o ansawdd uchel, wedi'i gynllunio i gymryd mantais lawn o alluoedd band eang. Byddai'r cynnig hwn yn helpu bodloni diddordeb y cyhoedd mewn cynnwys gwreiddiol ac arloesol – a byddai'n rhoi sylw i'r risg na ddarperir digon o'r math hwn o allbwn mewn byd hollol ddigidol. Gellid herio'r PSP newydd i ddod o hyd i fformatau newydd ar gyfer genres traddodiadol, wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer defnydd rhyngweithiol, ar-alw. Gellid hefyd mynnu bod gan wasanaeth o'r fath ragolwg nad yw'n rhagolwg metropolitanaidd, gan gomisiynu cynnwys sy'n adlewyrchu'r DG gyfan, ac nid Llundain yn unig. Gellid ei leoli y tu allan i Lundain a byddai hyn yn ei dro yn helpu cryfhau'r sector cynhyrchu creadigol y tu allan i Lundain.
- Gwasanaethau lleol a chymunedol. Mae'r cyhoedd yn gwerthfawrogi newyddion a gwybodaeth leol a chynnwys arall sy'n canolbwyntio ar eu hardal benodol eu hunain – mae teledu digidol a band eang yn rhoi cyfleoedd newydd i wasanaethu anghenion lleol felly yn fwy effeithiol. Mae band eang yn galluogi gwasanaethu cymunedau rhanedig yn well, trwy ddod â rheiny sydd â diddordeb tebyg at ei gilydd ledled y DG. Gallai band eang hefyd annog, gyda chymorth priodol, datblygu gwasanaethau cymheiriaid-i-gymheiriaid, gan achosi ymagwedd fwy cyfranogol at ddefnyddio'r cyfryngau.

1.49 Yn ogystal â'r uchod, mae rhai wedi awgrymu y gallai'r PSP chwarae rôl

bwysig wrth helpu defnyddwyr a dinasyddion ymlwybro trwy'r ystod eang o gynnwys sydd ar gael ar bob llwyfan digidol – arweinwr neu gyfeiriwr gwasanaeth cyhoeddus dibynadwy. Gall fod hefyd mewn safle da i weithio gyda sefydliadau presennol, fel amgueddfeydd, orielau a sefydliadau addysgol, i roi mynediad i ystod llawer ehangach o gynnwys a ariennir yn gyhoeddus, o ffynonellau nad ydynt yn rai darlledu, nag sydd ar gael ar hyn o bryd. O ystyried yr ystod eang o gynigion diddorol ar gyfer y PSP, byddem yn annog meddwl ac ymchwilio ymhellach i'r opsiynau, er mwyn datblygu'r cynnig ymhellach.

1.50 Byddai'n bosibl cyflwyno'r mathau hyn o wasanaethau trwy un gweithredwr PSP – er enghraifft, gyda chonsortiwm yn cynnwys prif ddarparwr cynnwys gyda mynediad i safleoedd cynhyrchu rhanbarthol, a rhwydwaith o ddarparwyr gwasanaeth lleol. Ond gall fod yn fwy effeithiol dyfarnu dau gontract ar wahân neu fwy ar gyfer yr elfennau unigol, gyda gwahanol lefelau o gyllid (er enghraifft, efallai dim ond cyllid sbarduno fydd ei angen ar wasanaethau lleol a chymunedol).

Sut y gallai weithio

1.51 Yn ddelfrydol, dylai cynlluniau fod yn eu lle er mwyn i'r PSP fod ar waith cyn cwblhau'r newid i'r digidol. O ystyried yr amserlen ar gyfer y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ofynnol, mae hyn yn golygu y byddai angen dechrau'r gwaith i ddatblygu'r syniad, gan gynnwys ymchwil i'r ymateb cyhoeddus i ddewisiadau amgen, mewn da bryd.

1.52 Yng Ngham 2, awgrymwyd y gallai fod angen tua £300m ar y PSP i'w fuddsoddi mewn cynnwys a dosbarthu a allai gael dylanwad a chyrhaeddiad gwirioneddol. Awgrymodd ymatebion i'n hymgynghoriad fod hyn yn lefel ariannu resymol i anelu ati, o ystyried amcanion y cynnig – ni fyddai'r PSP, yn y model hwn, yn darparu sianel ddarlledu 24 awr gonfensiynol, ond byddai fel arall yn canolbwyntio'i fuddsoddiad ar faint mwy cyfyngedig o ddeunydd ansawdd uchel, wedi'i hyrwyddo'n dda a'i ddosbarthu'n eang, a fydd yn debygol o fod ar gael ar alw ar gyfer bwlch rhyddhad estynedig, neu fel gwasanaeth cymunedol, fel a awgrymwyd uchod.

1.53 Byddai'r PSP (neu'r PSPs) yn cael ei sefydlu trwy ddyfarnu contract yn gyfnodol i'r cynigiwr/cynigwyr llwyddiannus. Er mwyn ennill y contract, ac i gael mynediad i arian cyhoeddus, byddai darpar ddarparwyr yn cyflwyno cynigion cystadlu am gynnwys, dosbarthu a rheoli. Credwn y byddai'r ymagwedd hon yn creu mwy o gystadleugarwch, yn annog syniadau ac ymagweddau newydd, yn sicrhau gwerth am arian ac yn hwyluso dechreuwyr newydd i'r diwydiant. O ran egwyddor, dylai'r broses dendro fod yn agored i'r ystod ehangach bosibl o ddarpar gynigwyr, gan gynnwys darlledwyr, ond hefyd cwmnïau cyfryngau, telegyfathrebiadau a chynhyrchu eraill. Byddai'r BBC yn cael ei eithrio, oherwydd un o'r nodau yw cynnal lluosogrwydd yng nghyflenwad PSB.

Channel 4 a'r PSP

1.54 Cynigiodd sawl ymateb i'n hymgynghoriad y gallai Channel 4 gael perthynas agos â'r PSP, yn enwedig gan y gallai ddarparu allfa ddarlledu gychwynnol a thraws-hyrwyddo ar gyfer rhywfaint o gynnwys y PSP. Rydym wedi ystyried tri phrif opsiwn ar gyfer perthynas bosibl Channel 4 gyda'r PSP:

- Mae'r broses dendro yn agored i unrhyw un, heblaw'r BBC. Byddai hyn yn galluogi dyrannu'r PSP yn gystadleuol i'r cynigiwr gorau posibl, efallai consortiwm yn cynnwys ystod o wahanol sefydliadau a sectorau. Byddai Channel 4 yn rhydd i gynnig ochr yn ochr â phob parti arall.
- Gellid rhoi rhan sylweddol i Channel 4 yn y PSP, a byddai angen iddo gyflwyno partneriaid i weithredu'r PSP. Byddai hyn yn sicrhau rôl i Channel 4, ac yn rhoi sail iddo ar gyfer cyflawni graddfa ac ehangder newydd o ran darpariaeth PSB, yn enwedig yn y cyfryngau newydd.
- Byddai rhaid i'r enillydd, neu'r cynigwyr ar y rhestr fer ar gyfer y PSP, ddod at gytundeb gyda Channel 4 – er enghraifft, am fynediad i amser darlledu a hyrwyddo Channel 4.

1.55 Rhwng popeth, ystyriwn y dylid ystyried y ddau opsiwn cyntaf o'r rhain yn fanylach – byddai'r cyntaf yn creu llawer mwy o gystadleuaeth ar gyfer ymagweddau a syniadau newydd; byddai'r ail yn creu llwybr i Channel 4 gryfhau ei gynnig PSB. Mae angen

dadansoddiad manwl pellach ar y ddau, gan gynnwys eu heffaith bosibl ar gystadleuaeth yn y farchnad ddarlledu. Byddai'r trydydd opsiwn, yn ein barn ni, yn anodd ei weithredu ac mae'n bosibl na fyddai'n cyflawni un o'r buddion hyn yn effeithiol iawn.

Rheoleiddio, atebolrwydd a llywodraethu PSB

1.56 Elfen derfynol model newydd, effeithiol ar gyfer PSB yw fframwaith cyffredinol rheoleiddio, atebolrwydd a llywodraethu. Yng Ngham 2, awgrymwyd bod angen egluro gwahanol rolau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC. Mae ein proses ymgynghori wedi amlygu pwysigrwydd y materion hyn, ac wedi codi cwestiynau ehangach sy'n gysylltiedig â'r system PSB gyfan, nid y BBC yn unig. Ers hynny, mae panel Burns (sy'n cynghori'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar Adolygiad y Siartr) wedi cyhoeddi ei gynigion ar gyfer Comisiwn Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus newydd.

1.57 Rydym yn cefnogi awgrym panel Burns yn gryf y dylid gwahaniaethu rhwng rheolaeth a chydymffurfio ar un llaw, a rheoleiddio ac atebolrwydd ar y llall. Mewn gwirionedd, mae'n dadansoddiad yn awgrymu bod yna dair agwedd i sicrhau llywodraethu a rheoleiddio llwyddiannus:

- Rheoleiddio allanol, traws-sector – yn berthnasol i'r holl rhanddeiliaid yn y farchnad.
- Atebolrwydd – trosolwg effeithiol, ar ran y cyhoedd, o unrhyw ddefnydd o arian cyhoeddus ar gyfer darparu PSB.
- Llywodraethu mewnol neu gorfforaethol – rheolaeth a chydymffurfiaeth y sefydliadau a'r cymdeithasau amrywiol sy'n rhan o'r system.

1.58 Dadleuodd ymatebwyr i'n hymgynghoriad fod y system bresennol yn ddiffygiol ar sawl achos. Ni fu Llywodraethwyr y BBC hyd yma yn ddigon annibynnol o uwch weithredwyr y BBC, gyda'r risg y peryglir llywodraethu mewnol a throsolwg effeithiol er lles y cyhoedd. Mae'r BBC yn syrthio y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio traws-ddiwydiant mewn rhai meysydd allweddol, gan gynnwys rhwymedigaethau Haen 1 i sicrhau cywirdeb a

diduedddrwydd. Mynegwyd pryderon gwirioneddol ynghylch effaith y BBC ar y farchnadle ehangach ac annibyniaeth asesiadau effaith y farchnad y BBC. Dadleuwyd bod angen trafod materion cystadleuaeth mewn modd cyson ar draws y sector cyfan.

1.59 Mae yna hefyd faterion llywodraethu y mae angen rhoi sylw iddynt ar draws y sector ehangach. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i Ofcom gyflawni cymysgedd o ddyletswyddau rheoleiddio a llywodraethu a allai wrthdaro – er enghraifft, o ran penodi cyfarwyddwyr anweithredol, Bwrdd y Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg a gweithredu'r Gronfa Radio Cymunedol. Llywodraethir S4C mewn modd arall eto.

1.60 Ni chredwn mai'r ateb i'r problemau hyn yw i Ofcom lywodraethu a goruchwylio'r BBC. Byddai hyn yn cymhlethu cyfres gymhleth ac amherffaith o berthnasoedd yn fwy.

1.61 Yn hytrach, credwn y dylid egluro tair wahanol rôl llywodraethu, rheoleiddio ac atebolrwydd mewnol ymhellach.

1.62 Yn gyntaf, credwn fod yna gamau synhwyrol i'w cymryd i sicrhau rheoleiddio gwell a mwy cyson o system PSB lle mae yna rhyngberthnasoedd cymhleth, ac sydd yn gynyddol fregus. Cynigiwn y canlynol:

- Dylai'r ymagwedd at faterion cystadleuaeth fod yr un fath ar draws y sector – gyda'r BBC yn atebol i'r un rheolau o flaen llaw â darlledwyr masnachol. Byddai hyn yn galluogi Ofcom i ymyrryd ar unwaith petai bygythiad posibl i gystadleuaeth, a sicrhau ymagwedd gyson ar draws y farchnad. Byddai'r BBC yna'n benodol gyfrifol am gydymffurfiaeth, ac Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio.
- Lle mae'r BBC yn cynnig gwasanaethau newydd, dylai Ofcom gynnal yr Asesiadau Effaith (sy'n archwilio effaith y gwasanaethau newydd hynny ar y farchnad gyfan), yn hytrach na chynghorwyr a benodir gan Lywodraethwyr y BBC. Byddai canlyniadau asesiadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi ac yna eu defnyddio gan y rheiny sy'n gyfrifol am atebolrwydd a goruchwylio'r BBC wrth gyrraedd penderfyniad ar gymeradwyo gwasanaeth newydd; (beth bynnag, fel a gynigiwyd mewn man arall, edrychwn ymlaen at weithio gyda'r BBC i helpu datblygu ymagwedd gyffredin at Asesiadau Effaith).
- Dylai pob cwota Haen 2 sydd ar hyn o bryd yn parhau â

Llywodraethwyr y BBC gael eu rheoleiddio gan Ofcom yn y dyfodol: ar hyn o bryd, mae pwerau Ofcom mewn perthynas â chwotâu Haen 2 ar y BBC yn gyfyngedig mewn rhai meysydd.

1.63 Yn ail, dylid archwilio ymhellach opsiynau ar gyfer rheoli llywodraethu mewnol y BBC ac atebolrwydd a goruchwylio effeithiol o'r defnydd o arian cyhoeddus ar ran y cyhoedd. Mae yna ddau opsiwn bras:

- Y cyntaf yw'r model a gynigir ar hyn o bryd gan y BBC, sy'n cydnabod llawer o'r problemau a nodwyd gyda'r hen system, ac sy'n gwneud tipyn tuag at sefydlu gwell ymagwedd.
- Yr ail, a gynigir gan banel Burns, fyddai creu corff allanol newydd, sef Comisiwn Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, a fyddai'n casglu'r ffi trwydded, yn sicrhau bod y BBC yn gwario ei gyllid ffi trwydded yn effeithiol, ac yn cyflwyno gwerth cyhoeddus.

1.64 Byddai gan fabwysiadu model y BBC y fantais uniongyrchol o roi amser i newidiadau arfaethedig y BBC ei hun i weithio. Ond gallai model panel Burns fod yn fwy addas ar gyfer newidiadau yn y dyfodol. Gallai hefyd helpu i roi sylw i anomaleddau sy'n parhau ar draws y sector cyfan.

1.65 Gellid rhoi'r cyfrifoldeb i'r Comisiwn Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus arfaethedig newydd, er enghraifft, am oruchwylio'r PSP arfaethedig, neu unrhyw un arall sy'n derbyn arian cyhoeddus yn y dyfodol. Gallai hefyd gael cyfrifoldeb am y swyddogaethau goruchwylio ac atebolrwydd sydd gan Ofcom ar hyn o bryd, fel dyrannu'r Gronfa Radio Cymunedol.

1.66 Credwn fod yna fanteision ac anfanteision i'r ddwy ymagwedd. Yn ein barn ni, y mater hanfodol yw sicrhau bod unrhyw fodel a ddefnyddir yn gosod ymagwedd effeithiol at wahanol swyddogaethau llywodraethu mewnol, rheoleiddio traws-sector, a goruchwylio ac atebolrwydd arian cyhoeddus uniongyrchol.

Camau nesaf

1.67 Bwriad y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn yw helpu cynnal a chryfhau ansawdd darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus wrth i ni symud i'r oes ddigidol. Mae angen i ni bellach eu gweithredu:

- Yn Ofcom: byddwn nawr yn gweithredu'r newidiadau rheoleiddio arfaethedig ar gyfer ITV1 a thrwyddedigion eraill; yn datblygu mwy o waith ar deledu lleol; yn monitro safle Channel 4; yn ystyried rôl darlledwyr aml-sianel yn y system PSB; yn adolygu'r sector cynhyrchu; ac yn gwneud gwaith ehangach ar asesu PSB a chystadleuaeth mewn darlledu.
- Yn fwy eang: mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys nifer o argymhellion i'r Llywodraeth eu hystyried yn Adolygiad Siartr y BBC ac mewn mannau eraill – er enghraifft, cynigion ar lywodraethu a rheoleiddio, ac ar gamau nesaf posibl ar gyfer y PSP.
- Ymgynghoriad newydd: yn olaf, mae'r adroddiad hwn yn nodi am y tro cyntaf ein cynigion ar gyfer PSB yn y Gwledydd. Felly, mae'r adroddiad hwn yn agor ymgynghoriad ffurfiol ar y gyfres hon o gynigion, a nodir y cwestiynau ar gyfer ymgynghori yn Atodiad A yr adroddiad hwn.
- Adolygiad PSB yn y dyfodol: heb fod yn fwy na phum mlynedd ar ôl yr adolygiad cyfredol, bydd Ofcom yn cynnal adolygiad pellach o ddarlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus, fel sy'n ofynnol yn ôl statud. Yn yr un modd ag yn yr adolygiad hwn, bydd Ofcom yn ystyried pa mor effeithiol y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bodloni dibenion PSB. Yn yr un modd, byddwn yn gwneud argymhellion ar gyfer cynnal a chryfhau ansawdd PSB, gan ystyried costau darpariaeth, a'r ffynonellau incwm sydd ar gael bryd hynny.

1.68 Ein nod yw sicrhau system newydd ar gyfer y dyfodol, yn unol ag anghenion dinasyddion a defnyddwyr wrth iddynt ddatblygu, ac wrth iddynt fanteisio ar dechnolegau a chyfryngau newydd. Dylid ei nodweddu gan farchnadle gystadleuol gyda darparwyr lluosog, gan ddefnyddio technolegau presennol a newydd, cystadleuaeth am gomisiynu a dosbarthu cynnwys o ansawdd, sector cynhyrchu bywiog ac amrywiol, cyllid cynaliadwy, a gwerth am arian. Dylai wasanaethu ac adlewyrchu'r DG gyfan, ac nid Llundain a De Ddwyrain Lloegr yn unig. Dylai alluogi'r farchnad i weithio mor effeithiol ag y gall, tra'n sicrhau'r agweddau hynny ar ddarpariaeth na fydd y farchnad yn eu sicrhau ar ei phen ei hun. Mae'r prif adroddiad yn datblygu pob thema yn fwy manwl.

Of 233 (Chwefror 05) / Stills 11031

Ofcom
OFFICE OF COMMUNICATIONS
Y SWYDDFA GYFATHREBIADAU

2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ

Teleffon +44 (0)29 2046 7200
Ffacs +44 (0)29 2046 7233

www.ofcom.org.uk

Tŷ Riverside
2a Heol Bont Southwark
Llundain SE1 9HA

Teleffon +44 (0)20 7981 3000
Ffacs +44 (0)20 7981 3333